CANLLAW I GAEL TRWYDDED GWEITHREDWR HURIO PREIFAT

EITEM 1- GWYBODAETH GYFFREDINOL

Cynigia'r llyfryn hwn gyfarwyddyd ar sut i ymgeisio am drwydded gyrrwr hurio preifat, trwydded cerbyd hurio preifat a thrwydded gweithredwr hurio preifat. Am ymholiadau ar sut i gael trwydded neu i ofyn cwestiwn cyffredinol am faterion trwyddedu:

Trwyddedu a Phrofi Cerbydau **Depo Cludiant Adran yr Amgylchedd, Ffordd yr Abaty,** **Ystad Ddiwydiannol Wrecsam**	**Ffôn 01978 729600** **Gwasanaeth Cwsmer** **Llun-Iau 08.30 am - 4.30pm** **Gwe 08.30am - 4.00pm**
Ymholiadau gorfodaeth, cyngor cyffredinol a chwynion **Adran Diogelu'r Cyhoedd, Adeiladau'r Goron,** **Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8ZE**	**Ffôn 01978 292040**

EITEM 2 – CYFLWYNIAD

Yng Nghymru a Lloegr (tu allan i Lundain), y cyngor lleol sy'n cyhoeddi trwyddedau hurio preifat a cherbydau hacnai er mwyn rheoli gweithrediad diogel cerbydau hurio preifat a cherbydau hacnai.

Yn Wrecsam, yr Is-Adran Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu a leoli yn yr Adran Diogelu'r Cyhoedd, Adeiladau'r Goron, Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8ZE sy'n delio â materion trwyddedu a gorfodi.

Mae gan bob trwydded gyfres o amodau y gofynnir i ddeiliad trwydded gydymffurfio â nhw. Atodir copïau o'r amodau hyn at bob trwydded ac maent ar gael o'r cyfeiriad uchod. Cyhoeddir trwyddedau am gyfnod o flwyddyn.

EITEM 3 – FFIOEDD HURIO PREIFAT

Ar gyfer Ffioedd Hurio Preifat diweddar, gwelwch www.wrexham.gov.uk neu ffoniwch (01978) 729600

SYLWER NAD YW CYFLEUSTERAU TALU Â CHERDYN AR GAEL

PWYSIG
NI DDERBYNNIR FFIOEDD HEB YR HOLL DDOGFENNAU PERTHNASOL

EITEM 4 – FFURFLENNI CAIS

Mae ffurflenni cais ar gael o depo cludiant Adran yr Amgylchedd neu'r Adran Diogelu'r Cyhoedd yn y cyfeiriad uchod.

EITEM – 5 SUT I YMGEISIO AM DRWYDDED

Lleolir Depo Cludiant Adran yr Amgylchedd ar Ffordd yr Abaty, Ystad Ddiwydiannol Wrecsam.

Galwch heibio i'n desg gwasanaeth cwsmer i ofyn am y ffurflenni er mwyn ymgeisio am y trwyddedau hurio preifat a ddymunwch. Gallwch ffonio (01978 729600) a gofyn i ni anfon ffurflenni cais i'ch cyfeiriad cartref hefyd.

Dylech ddod â'r ffurflenni cais cyflawn i'r depo ynghyd â'r dogfennau a'r ffioedd priodol. Byddwch yn cael rhif cais wedyn sy'n gyfeirnod unigryw a fydd yn ymddangos yn glir ar eich derbynneb. Bydd gofyn i chi ddyfynnu'r rhif cais hwn.

EITEM 6 – GWEITHDREFN YMGEISIO AM DRWYDDED GWEITHREDWR HURIO PREIFAT

I ymgeisio am drwydded gweithredwr hurio preifat, rhaid i chi:

A. fod yn ymwybodol bod gofyn gwneud pob cais am drwydded gweithredwr **yn enw un unigolyn**.

B. cwblhau'r ffurflen gais briodol a ffurflen cofnodion troseddol.
Dengys y camau canlynol sut y prosesir eich cais:

1. Ar ôl i chi dalu'r ffi SCT briodol, byddwch yn cael derbynneb.
2. Bydd rhywun yn gwirio eich ffurflen gais yn eich presenoldeb am gamgymeriadau neu hepgoriadau.
3. Wrth gyflwyno eich cais, gofynnir i chi ddatgan unrhyw euogfarnau. Gweler Atodiad 1. Yn ogystal, gofynnir i chi gwblhau ffurflen ddatgelu i'w chyflwyno i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT). Byddant yn eich gwirio gyda'r heddlu a chyrff eraill i benderfynu a oes gennych euogfarnau. Os ydych wedi datgan euogfarnau, yn dilyn cadarnhad o'r rhain gan y SCT, cyfeirir eich cais at y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol. Mae'r canllawiau y bydd y Pwyllgor yn eu dilyn wrth ystyried eich cais yn Atodiad 2. Mae'r weithdrefn a ddilynir (byddwch yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Pwyllgor) yn Atodiad 3. Byddai eich cais yn dilyn camau 4 a 5 isod wedyn.
4. Os dymunwch barhau â'ch cais ar ôl i chi gael esboniad o'ch opsiynau, bydd cam 5 yn gymwys.
5. Bydd eich ffurflen SCT yn cael ei phrosesu.
6. Rhaid ymgeiswyr heb ddinesyddiaeth Prydeinig, ddangos tystiolaeth o Gofnodion Troseddol ou gwlad gwreiddiol.

Dylech gael caniatâd cynllunio wedyn gan:

YR ADRAN GYNLLUNIO
NEUADD Y DREF
WRECSAM
FFÔN: 01978 292016

C. Byddai eich cais yn cael ei roi (os yw'r Adran Gynllunio wedi rhoi caniatâd cynllunio). Mae amodau sy'n berthnasol i'r drwydded y bydd raid i chi gydymffurfio â nhw a gallai methiant i gydymffurfio arwain at erlyniad dan y ddeddf neu adroddiad i'r Pwyllgor.

D. Bob blwyddyn, anfonir ffurflen adnewyddu i'ch cyfeiriad fel gweithredwr (sylwer mai chi sy'n gyfrifol am sicrhau yr adnewyddir eich trwydded cyn iddi ddod i ben). Ewch i'r depo ar Ffordd Abaty gyda ffurflen adnewyddu gyflawn a'r ffi briodol.

<u>PWYSIG</u> – ADNEWYDDU TRWYDDED GWEITHREDWR HURIO PREIFAT YN HWYR

Os na adnewyddwch mewn pryd ond y derbynnir eich cais o fewn mis calendr yn dilyn dyddiad dod i ben y drwydded, bydd ffi adnewyddu 'hwyr' yn daladwy sy'n gyfystyr â'r ffi am roi'r drwydded a bydd y drwydded yn cael ei dyddio i ddod i ben 12 mis o'r *dyddiad dod i ben blaenorol.* **Er y bydd y Cyngor yn derbyn cais i adnewyddu trwydded, yn hytrach na gofyn am gais newydd, hyd at fis calendr ar ôl i'r drwydded ddod i ben, <u>nid</u> yw hyn yn 'gyfnod cymwynas'.** Y gweithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau yr adnewyddir y drwydded cyn i drwydded flaenorol ddod i ben.

Ni dderbynnir cais i adnewyddu trwydded fwy na mis calendr yn dilyn dyddiad dod i ben trwydded.

Bydd unrhyw gais a wneir ar ôl yr amser hwn yn cael ei drin fel cais 'newydd' a bydd gofyn i chi fynd trwy'r un weithdrefn â'r un a bennir ar gyfer rhoi trwydded.

EITEM 7 – Y GYFRAITH A'R AMODAU LLEOL SY'N PERTHYN I DRWYDDEDAU HURIO PREIFAT

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n rheoli hurio preifat fel a ganlyn:

Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Gallwch gael copi o unrhyw siop lyfrau HMSO.

Mae copi o amodau trwyddedau ar gyfer gweithredwyr hurio preifat yn Atodiad 4.

MEINI PRAWF I'W DEFNYDDIO WRTH BENDERFYNU AR DRWYDDED GYRRWR HURIO PREIFAT, TRWYDDED GWEITHREDWR HURIO PREIFAT NEU DRWYDDED GYRRWR CERBYD HACNAI

1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gyfrifol am yr holl faterion trwyddedu mewn cysylltiad â'r fasnach hurio preifat a cherbydau hacnai yn ardal Wrecsam.

2. CANLLAWIAU

Mae Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 yn datgan nad yw 'euogfarnau darfodedig' yn gyffredinol yn cael eu hystyried gan fod unigolyn a ailsefydlwyd yn cael ei drin fel unigolyn â chymeriad da blaenorol. Fodd bynnag, mae Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygiad)r 2002 yn eithrio gyrwyr hurio preifat a cherbydau hacnai yn benodol ac ni ystyrir bod euogfarnau'n ddarfodedig. Golyga hyn fod rhaid cofnodi pob euogfarn ar y ffurflen gais; bydd gan swyddogion ac aelodau (os aiff y cais i'r Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol) hawl i holi am euogfarnau darfodedig.

Mae'r Awdurdod yn gofyn i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol wneud gwiriad datgelu manwl o geisiadau am drwyddedau gyrwyr hurio preifat a cheisiadau adnewyddu. Mae hyn yn rhoi manylion o unrhyw euogfarnau cyfredol a darfodedig i'r Awdurdod, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'r Prif Swyddog Heddlu'n credu ei bod yn berthnasol i'r swydd dan sylw. Gallai'r wybodaeth ychwanegol fod yn gwyn neu'n ddigwyddiad a oedd yn cynnwys yr ymgeisydd, nid oes raid iddi fod yn erlyniad nac yn rhybudd.

Polisi'r Cyngor yw bod ymgeiswyr ag euogfarnau cyfredol yn mynd gerbron pwyllgor gyda'u heuogfarnau darfodedig (ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall). Byddai ymgeiswyr ag euogfarnau darfodedig yn mynd gerbron y pwyllgor pe bai'r euogfarnau'n berthnasol i ddiogelwch neu ddiogeledd cyhoeddus.

Ymdrinnir â'ch gwybodaeth yn hollol gyfrinachol a bydd ond yn cael ei hystyried mewn perthynas â'ch cais. Dylech wybod bod gan y Cyngor hawl gyfreithiol i wirio gyda'r heddlu (Swyddfa Cofnodion Troseddol) am fodolaeth a natur unrhyw gofnod troseddol yn enw'r ymgeisydd. Cedwir unrhyw wybodaeth a geir gan yr heddlu neu'r Swyddfa'n gyfrinachol tra bod y broses drwyddedu ar waith ac ni fydd yn cael ei chadw'n fwy nag sydd ei angen.

Ni fydd datgelu cofnod troseddol neu wybodaeth arall yn eich rhwystro rhag cael trwydded o reidrwydd oni bai bod y Cyngor yn ystyried bod yr euogfarn yn eich gwneud yn anaddas. Wrth benderfynu ar hyn, bydd yr Awdurdod yn ystyried natur y drosedd, pryd ddigwyddodd, eich oedran ar y pryd ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill. Fe'ch cynghorir i ystyried y canllawiau atodedig sy'n perthyn i berthnasedd euogfarnau.

Mae gan unrhyw ymgeisydd y gwrthodwyd rhoi trwydded iddo ar y sail nad yw'n unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded hawl i apelio i lys ynadon o fewn 21 diwrnod o dderbyn y penderfyniad.

CANLLAWIAU A DDEFNYDDIR GAN Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AMGYLCHEDDOL

Bydd ceisiadau'n mynd i'r Pwyllgor os oes yna euogfarnau diweddar h.y. euogfarn o fewn y pum mlynedd ddiwethaf. Rhestr y canllawiau sy'n perthyn i berthnasedd euogfarnau i'w defnyddio gan y Pwyllgor isod. Maent yn cyfeirio at yrwyr cerbydau hacnai a hurio preifat ond gellir defnyddio'r meini prawf ar gyfer ceisiadau gweithredwyr hurio preifat hefyd gan eu bod yn gyfrifol am ddelio ym maes diogelwch a diogeledd cyhoeddus.

1. Pendefynir ar bob achos yn unigol.
2. Ni fydd unigolyn ag euogfarn gyfredol am drosedd ddifrifol yn cael ei rwystro rhag cael trwydded ond disgwylir iddo fod yn rhydd o euogfarnau am 3 i 5 mlynedd, yn unol â'r amgylchiadau, cyn gellir ystyried cais. Gall peth doethineb fod yn briodol os mai un drosedd sydd ac os oes amgylchiadau lliniarol. Fodd bynnag, yr ystyriaeth bwysicaf yw diogelu'r cyhoedd.
3. Mae'r enghreifftiau canlynol yn ganllaw cyffredinol ar y camau i'w cymryd lle cyfaddefir euogfarnau.

(a) **Mân-Droseddau Traffig**

Ni ddylai euogfarnau am fân-droseddau gyrru e.e. rhwystro, aros ar stryd gyfyngedig, gyrru'n rhy gyflym atal unrhyw un rhag gwneud cais. Os yw'r gyrrwr yn cael ei wahardd rhag gyrru, bydd trwydded cerbyd hacnai neu hurio preifat yn cael ei rhoi dim ond ar ôl i'r cyfnod gwahardd ddod i ben ond dylid cyhoeddi rhybudd o ran ymddygiad y gyrrwr yn y dyfodol.

(b) **Troseddau Traffig Mawr**

Dylai un euogfarn am yrru'n esgeulus neu'n ddiofal a disylw ayb fynnu rhybudd o ran gyrru yn y dyfodol a chyngor ar y safon a ddisgwylir o yrwyr cerbydau hacnai a hurio preifat. Dylai mwy nag un euogfarn o'r math hwn o drosedd yn y 2 flynedd ddiwethaf arwain at wrthod trwydded ac ni ddylid ystyried cais arall am rhwng blwyddyn a 3 blynedd arall.

(c) **Meddwdod**

(i) Tra'n gyrru

Dylid ystyried euogfarnau o yrru neu fod mewn rheolaeth o gerbyd tra dan ddylanwad diod feddwol o ddifrif. Ni ddylai un digwyddiad atal ymgeisydd ond dylid rhoi rhybudd clir o ran ymddygiad y gyrrwr yn y dyfodol. Dylai mwy nag un euogfarn fod yn ddigon i amau ffitrwydd ymgeisydd i ddal trwydded.

Dylai o leiaf 3 blynedd fynd heibio (ar ôl adfer y drwydded yrru) cyn ystyried gwneud cais arall.

Os oes awgrym bod yr ymgeisydd yn ddibynnol ar alcohol, dylid trefnu archwiliad meddygol cyn ystyried y cais. Os gwelir bod yr ymgeisydd yn ddibynnol ar alcohol, dylai cyfnod o 5 mlynedd fynd heibio ar ôl cael triniaeth cyn ystyried cais arall am drwydded.

(ii) Ddim yn y cerbyd

Nid oes raid i un euogfarn am feddwdod rwystro ymgeisydd rhag cael trwydded. Fodd bynnag, gallai nifer o euogfarnau olygu bod yna broblem feddygol sy'n mynnu archwiliad hanfodol (gweler (i) uchod). Mewn rhai achosion, bydd rhybudd yn ddigon.

d) **Cyffuriau**

Dylid gofyn i ymgeisydd ag euogfarn am drosedd sy'n ymwneud â chyffuriau ddangos cyfnod o dair blynedd o leiaf yn rhydd o euogfarnau cyn ystyried cais neu 5 mlynedd ar ôl triniaeth os oedd yn gaeth i gyffuriau.

(e) **Anweddusrwydd**

Gan fod gyrwyr cerbyd hacnai a hurio preifat yn cario pobl ar eu pen eu hunain, dylid gwrthod unrhyw ymgeiswyr ag euogfarnau am ddinoethiad anweddus, ymosodiad anweddus, llithio i bwrpas anfoesol neu unrhyw un o'r troseddau rhywiol mwy difrifol hyd nes iddynt fod yn rhydd o'r troseddau hyn am gyfnod sylweddol (o leiaf 3 – 5 mlynedd). Dylai mwy nag un euogfarn olygu na ddylid eu hystyried am 5 mlynedd o leiaf. Yn y naill achos, os rhoddir trwydded i'r ymgeisydd, dylid rhoi rhybudd clir o ran ymddygiad yn y dyfodol.

(f) **Trais - canllawiau**

Gan fod gyrwyr cerbydau hacnai a hurio preifat yn cynnal cyswllt agos â'r cyhoedd, dylid bod yn gadarn gydag ymgeiswyr sydd ag euogfarnau am niwed corfforol difrifol, anafu neu ymosodiad. Dylid dangos o leiaf 3 blynedd heb euogfarnau cyn ystyried cais ond dylid rhoi rhybudd clir hyd yn oed wedi hyn.

(g) **Anonestrwydd**

Disgwylir i yrwyr cerbydau hacnai a hurio preifat fod yn ddibynadwy. Mae'r arfer o gludo eiddo heb gwmni'n dangos y ffydd sydd gan bobl fusnes mewn gyrwyr. Felly, mae'n gymharol hawdd i yrrwr anonest dwyllo'r cyhoedd trwy hawlio mwy na'r tâl cyfreithiol ayb. Gallai ymwelwyr o dramor ddrysu oherwydd yr arian gwahanol. Am y rhesymau hyn, dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i unrhyw euogfarn am anonestrwydd. Yn gyffredinol, dylid gofyn am gyfnod o 3 – 5 mlynedd heb euogfarnau cyn ystyried cais.

ATODIAD 3

Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol

Gweithdrefnau ar gyfer Gwrandawiadau : Trwyddedau Hurio Preifat

1. Cadeirydd yn croesawu'r ymgeisydd/deiliad trwydded a'i wahodd i eistedd.

2. Cadeirydd yn cyflwyno ei hun ac aelodau'r Pwyllgor a fydd yn penderfynu ar y mater dan ystyriaeth.

3. Cadeirydd yn sicrhau hunaniaeth yr ymgeisydd/deiliad trwydded a'i gynrychiolydd a'i hysbysu y gwahoddwyd ef i fynychu mewn perthynas â'i gais am drwydded gyrrwr/cerbyd/gweithredwr hurio preifat.

4. Cadeirydd yn esbonio nad yw'n llys cyfraith ond bod yna weithdrefnau yn eu lle i sicrhau safon y gwrandawiad. Cadeirydd i wirio gyda'r ymgeisydd/deiliad bathodyn ei fod yn deall y weithdrefn. Cadeirydd yn symud ymlaen â'r gwrandawiad.

5. Swyddogion diogelu'r cyhoedd yn cyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r ymgeisydd/deiliad trwydded.

6. Gwahoddir yr ymgeisydd/deilad i esbonio'r amgylchiadau sy'n perthyn i'r materion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.

7. Gwahoddir aelodau o'r pwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd/deiliad ac i'r swyddogion.

8. Gwahoddir y swyddogion diogelu'r cyhoedd i wneud sylwadau i gloi.

9. Gwahoddir yr ymgeisydd/deiliad i wneud unrhyw sylwadau terfynol mewn perthynas â'r cais neu'r drwydded.

10. Rhaid cyfeirio pob cwestiwn at y cadeirydd yn gyntaf.

11. Ar ddiwedd y gwrandawiad, bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r ymgeisydd/deiliad bod aelodau'r pwyllgor am ystyried y mater yn breifat. Gofynnir i'r ymgeisydd/deiliad a swyddogion y Cyngor aros yn y cyntedd rhag ofn y bydd eu hangen i ateb rhagor o gwestiynau.

12. Unwaith y bydd penderfyniad yn cael ei wneud, bydd clerc y Pwyllgor yn hysbysu'r ymgeisydd/deilad y caiff wybod y penderfyniad yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod.

«

LicenceNo»

ENGHRAIFFT O DRWYDDED

Rhif «LicenceNo»

wrexham
COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

TRWYDDED GWEITHREDWR HURIO PREIFAT

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

YN TRWYDDEDU **«ForeName» «Surname»**

o **«Add1» «Add2» «Add3» «Add4»**

i fod yn weithredwr cerbyd hurio preifat ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam o'r dyddiad hwn hyd at a chan gynnwys **«Expiry»** oni bai y gwaherddir neu y diddymir y drwydded, yn amodol ar ganiatâd perchennog y cerbyd dan sylw a darpariaethau'r Ddeddf ac unrhyw statudau, gorchmynion, rheolau, rheoliadau ac is-ddeddfau sydd mewn grym o bryd i'w gilydd sy'n perthyn i reoleiddio cerbydau hurio preifat a pherchnogion, gyrwyr a gweithredwyr y cerbydau hyn yn y Fwrdeistref Sirol hon ac yn amodol ar yr amodau a bennir yn yr Atodiad isod.

DYDDIEDIG

_____

Ar ran y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd

ATODIAD

AMODAU'R DRWYDDED

Diffiniadau: Yn yr amodau hyn, ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd y geiriau a'r mynegiadau canlynol yn golygu'r canlynol:-

Golyga **swyddog awdurdodedig** unigolyn a awdurdodir gan y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd i gyflawni dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi trwyddedau hurio preifat a gorfodi deddfwriaeth sy'n perthyn i hurio preifat;

Golya **rhif bathodyn** rif trwydded gyrrwr hurio preifat a arddangosir ar y bathodyn adnabod a roddir i'r gyrrwr gan y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd yn unol ag Adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976;

Golyga **Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd** yr unigolyn a benodir i'r swydd honno yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam;

Golyga **gweithredwr** yr unigolyn y cyhoeddir y trwydded gweithredwr iddo;

Golyga **gyrrwr** yr unigolyn y cyhoeddir trwydded gyrrwr hurio preifat iddo gan y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd;

Golyga **perchennog** yr unigolyn y cyhoeddir trwydded cerbyd hurio preifat iddo gan y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd;

Golyga **cerbyd** y cerbyd y rhoddwyd trwydded cerbyd hurio preifat ar ei gyfer gan y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd;

Golyga **rhif plât** rif trwydded y cerbyd hurio preifat a arddangosir ar y platiau adnabod cerbydau a roddir i gerbyd gan y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd.

1A Bydd y gweithredwr yn cadw'r cofnodion canlynol:-

a) Mewn perthynas â phob contract i hurio cerbyd hurio preifat:-
   (i) dyddiad ac amser y mae angen y cerbyd
   (ii) enw a man casglu'r huriwr
   (iii) pen y daith
   (iv) rhif plât y cerbyd sy'n casglu'r huriwr
   (v) rhif bathodyn y gyrrwr sy'n casglu'r huriwr

b) Mewn perthynas â'r holl gerbydau a weithredir:-
   (i) enw a chyfeiriad y perchennog
   (ii) rhif cofrestru'r cerbyd
   (iii) y rhif plât a'r dyddiad dod i ben

c) Mewn perthynas â'r holl yrwyr sy'n gweithio i'r gweithredwr:-
   (i) enw a chyfeiriad y gyrrwr
   (ii) rhif bathodyn a dyddiad dod i ben
   (iii) yr alwad a roddir i'r gyrrwr
   (iv) copïau o'r dogfennau yswiriant perthnasol

B Gellir cadw'r cofnodion naill ai:

a) mewn llyfr a gymeradwyir gan y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd sydd â rhifau dilynol ynddo ac sydd wedi ei rwymo at ei gilydd
neu
b) ar system gofnodi gyfrifiadurol a gymeradwyir gan y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd.

C Bydd y cofnodion ar gael i swyddog awdurdodedig neu gwnstable eu harchwilio ar unrhyw adeg rhesymol.

D Bydd y gweithredwr yn cadw cofnodion am gyfnod heb fod yn llai na 12 mis.

2 Bydd y gweithredwr yn sicrhau bod gan bob cerbyd bolisi yswiriant neu sicrwydd arall sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI o Ddeddf Traffig y Ffordd 1972.

3 Bydd y gweithredwr yn darparu gwasanaeth prydlon, effeithiol a dibynadwy i aelodau o'r cyhoedd ar bob adeg rhesymol ac, yn benodol, bydd yn:-

a) sicrhau bod cerbyd hurio preifat a huriwyd ar gyfer amser a lleoliad penodol yn ymddangos yn y lleoliad ac ar yr amser penodol oni bai ei fod yn cael ei oedi neu ei atal rhag gwneud hynny;

b) cadw unrhyw eiddo y mae gan y cyhoedd fynediad iddo at y pwrpas o neilltuo cerbyd neu aros am gerbyd yn lân, yn ddigon cynnes, wedi ei awyru a'i oleuo'n dda;

c) sicrhau bod digon i le i eistedd mewn unrhyw fan aros;

d) sicrhau bod unrhyw gyfarpar ffôn a radio'n cael eu cynnal mewn cyflwr da a bod unrhyw ddiffygion yn cael eu trwsio'n brydlon;

e) sicrhau bod gan unrhyw gyfarpar radio drwydded a gyhoeddwyd yn unol â'r deddfau telegraffi radio sy'n cwmpasu defnyddio radios busnes preifat.

4 a) Ar ôl derbyn <u>unrhyw</u> gwyn mewn perthynas â gyrrwr, cerbyd neu unrhyw gontract hurio neu gontract honedig, bydd y gweithredwr yn hysbysu'r Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd yn ysgrifenedig ar unwaith i esbonio pa gamau y bwriedir eu cymryd (os o gwbl) er mwyn datrys y gwyn.

b) Bydd y gweithredwr yn gosod hysbysiad a argraffwyd yn daclus ac a ddarparwyd gan y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd mewn man amlwg tu mewn i'w eiddo sy'n esbonio y dylid cyfeirio unrhyw gwyn ynghylch contract hurio at y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Adeiladau'r Goron, Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8ZE.

5 a) Mae'r drwydded hon yn perthyn i'r eiddo a nodir ar y drwydded ac ni fydd y gweithredwr yn gweithredu cerbydau hurio preifat o unrhyw eiddo arall heb gael caniatâd ysgrifenedig y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd.

b) Bydd y gweithredwr yn hysbysu'r Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd yn ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod o unrhyw newid yn ei gyfeiriad personol.

6 Bydd y gweithredwr yn hysbysu'r Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd yn ysgrifenedig o fewn saith diwrno i roi manylion:

a) gyrrwr sy'n peidio â bod yn rhan o'r gwaith dan sylw;

b) gyrrwr sy'n dechrau gweithio gydag ef.

7 Bydd y gweithredwr yn hysbysu'r Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd yn ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod o unrhyw euogfarn (neu os yw'r gweithredwr yn gwmni neu bartneriaeth unrhyw euogfarn mewn perthynas â chyfarwyddwyr neu bartneriaid) yn ystod bywyd y drwydded.

8 O fewn 14 diwrnod o gyhoeddi'r drwydded, bydd y gweithredwr yn rhoi manylion ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd o'r ffioedd a godir am hurio cerbydau a bydd yn hysbysu'r Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd o fewn 7 diwrnod o unrhyw newididau i'r ffioedd hyn ynghyd â manylion y ffioedd newydd.

9 Bydd y gweithredwr yn ceisio am unrhyw ganiatâd cynllunio sy'n ofynnol ar gyfer ei eiddo a bydd yn cydymffurfio ag unrhyw amodau. Nid yw cyhoeddi'r drwydded hon yn golygu nad oes caniatâd cynllunio nac y byddai'n cael ei rhoi pe bai cais yn cael ei wneud i'r Cyngor.

10 a) Ni ddylid tarfu ar breswylwyr cyfagos na defnyddwyr tir eraill oherwydd llygredd atmosfferaidd neu yn yr awyr neu lygredd a drosglwyddir mewn ffordd arall. Bydd hyn yn cynnwys dirgryniad, sŵn, mwg, aroglau, llwch, lludw, golau disglair, papur ac ymyriadau i'r radio neu deledu.

b) Ni fydd cerbydau hurio preifat yn cael eu parcio ger yr eiddo ac yn achosi rhwystr i unrhyw un.

11 Ni fydd y gweithredwr yn gweithredu mwy na o gerbydau heb ganiatâd y Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd.

12 Bydd y gweithredwr yn sicrhau na fydd unrhyw gerbyd hurio preifat a weithredir ganddo'n aros nac yn parcio ar y ffordd mewn modd sy'n awgrymu eu bod ar gael i'w hurio.

13 Ni ddylid gwneud unrhyw waith trwsio (heblaw am waith trwsio brys), glanhau na thrin ar eiddo'r gweithredwr.

14 Bydd y gweithredwr yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 os ydynt yn ymwneud â gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr hurio preifat ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall sydd mewn grym.

MAE MODD YSTYRIED TORRI'R AMODAU HYN YN SAIL AR GYFER DIDDYMU NEU WRTHOD ADNEWYDDU'R DRWYDDED.

Hawl i Apelio

Os teimlwch eich bod wedi cael cam oherwydd amodau'r drwydded hon, mae gennych hawl i apelio i lys ynadon o fewn 21 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r drwydded.